- Sicrhau bod pysgodfeydd yn cael eu rheoli'n rhanbarthol yn hytrach nag yn ganolog, a bod pysgotwyr a chynhyrchwyr sy'n gweithredu ar raddfa fach yn cael cyfle digonol i leisio'u barn yn y cynghorau cynghori;
- Sicrhau nad yw'r cynigion mandadol i drosglwyddo consesiynau pysgota yn caniatáu i'r rhai sydd â'r pŵer economaidd mwyaf fanteisio ar gyfleoedd pysgota ar draul cymunedau ar yr arfordir;
- Sicrhau nad yw'r cynigion ynghylch pysgod a gaiff eu taflu'n ôl yn rhwystro'r gweithgaredd cynaliadwy presennol o daflu pysgod byw yn ôl i'r môr;
- Sicrhau bod mesurau cadarn ar waith i sicrhau bod yr holl Aelod-wladwriaethau yn casglu data mewn modd systematig a chyson.

Yn ogystal â'n meysydd blaenoriaeth, mae gennym sylwadau ar hawliau pysgota hanesyddol, dyframaeth a Chronfa arfaethedig Môr a Physgodfeydd Ewrop.


Mae'r papur sydd ynghlwm sy'n ymdrin â'n canfyddiadau allweddol yn manylu ar y materion a'r meysydd allweddol i'w gwella, a nodir uchod.

Byddwn yn parhau i fonitro hynt y cynigion yn ystod y trafodaethau, gan gynnwys y trafodaethau tyngedfennol yn Senedd Ewrop.

Rydym wedi ysgrifennu at y prif rapporteurs ynghylch y cynigion a byddem yn ddiolchgar am unrhyw gymorth y gallech ei ddarparu o ran codi'r materion hyn o fewn Senedd Ewrop drwy eich grŵp gwleidyddol, er mwyn sicrhau cefnogaeth ar gyfer y diwygiadau arfaethedig.

Yn olaf, rydym yn bwriadu ymweld â Brwsel yn ystod y misoedd nesaf (ym mis Mai neu Fehefin, o bosibl), a gobeithiwn y bydd yr ymweliad hwn yn rhoi cyfle i ni drafod y materion hyn â chi, yn ogystal ag unrhyw bwyntiau eraill sy'n codi yn y cyfamser.

Yn gywir



Julie James
Cadeirydd

